Pwnc dan Sylw - Eiliadau Hudolus: Gweithgareddau ystyrlon mewn gofal dementia.

Mae'r dull hwn o wella bywydau pobl â dementia ar sail tystiolaeth wedi cael ei ddatblygu gan y Tîm Hyfforddi yn y Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia, Prifysgol Bangor. Ers ychydig flynyddoedd, mae nifer fawr o weithwyr gofal ar draws Gogledd Cymru wedi mynegi'r angen i gael hyfforddiant ym maes rhyngweithio a hwyluso trwy weithgareddau.

Mae cynnwys a dull pob sesiwn hyfforddi yn seiliedig ar anghenion a galluoedd pobl â dementia, sydd wedi cymryd rhan mewn nifer o brojectau ymchwil a drefnwyd gan y ganolfan. Cynhaliwyd y projectau hyn mewn amryw o leoliadau gwahanol, ac roedd y cyfranwyr yn amrywio o unigolion oedd yn gofalu amdanynt eu hunain yn y gymuned i unigolion mewn lleoliadau preswyl oedd yn cael gofal nyrsio arbenigol.

Pwrpas y gweithgarwch hwn yw gwella ansawdd bywyd a lles pobl â dementia trwy wella diwylliant gofal trwy hyfforddi a galluogi staff i gynnig gweithgareddau ystyrlon trwy gyfrwng:

- Dulliau asesu priodol i bobl â dementia (asesiad PAL)
- Sgiliau hwyluso
- Gweithgareddau therapiwtig addas e.e. rhaglenni atgofion
- Cerddoriaeth a chân
- Gwaith hanes bywyd
- Gweithgareddau celf a chrefft
- Gweithgarwch i bobl â dementia difrifol

Mae'r cyrsiau'n cynnwys dau weithdy hanner diwrnod, gwaith project a llyfr gwaith

I gael ychwaneg o fanylion, cysylltwch â: dsdc@bangor.ac.uk